Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Carreg Hirfaen
# Ysgol Carreg Hirfaen
# Cwmann
# Sir Gaerfyrddin
# SA48 8ET

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 26/01/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Carreg Hirfaen, sy'n cwrdd mewn ystafell ar gampws Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen ym mhentref Cwmann, yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.  Symudodd i'r lleoliad hwn ym mis Chwefror 2016 o'i gartref blaenorol ar safle'r hen ysgol, lle'r oedd yn cael ei adnabod fel Cylch Meithrin Coedmor.  Mae'r lleoliad ar agor rhwng 8.30 y bore a hanner dydd am bum diwrnod yr wythnos.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a thair oed ac wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 19 plentyn.  Mae 14 plentyn yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a lleiafrif ddaw o aelwyd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith.  Ar hyn o bryd, ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi pedwar aelod o staff amser llawn.  Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Ionawr 2010.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Hydref 2016 a chan Estyn (fel Cylch Meithrin Coedmor) ym mis Chwefror 2012.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr holl feysydd dysgu
- y plant mwy abl yn gwneud cynnydd da iawn
- mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu'r iaith yn fuan
- bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau
- y plant yn ymddwyn yn dda
- staff yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol i'r plant, sy'n seiliedig ar eu diddordebau, yn ymateb yn dda i'w hanghenion, ac yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda
- ansawdd yr addysgu yn gadarn dda
- gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn drwyadl
- ganddo weithdrefnau gwerthfawr ac effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer ei ddatblygu, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar hapusrwydd, cynnydd a lles plant
- rolau'r ymarferwyr yn glir ac wedi eu cofnodi mewn disgrifiadau swyddi manwl
- gweithdrefn rheoli perfformiad y staff yn effeithiol ac mae gan bob un fynediad defnyddiol at hyfforddiant penodol
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i'w waith ac yn dwyn yr arweinydd a'r ymarferwyr eraill i gyfrif yn briodol mewn perthynas â'r gweithgareddau mae'r plant yn eu gwneud
- hunanarfarnu yn rhan greiddiol o'i waith ac yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd ei waith mewn perthynas ag addysgu a dysgu
- cyswllt clir rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella.
- ganddo berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant
- yr arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Cynllunio gweithgareddau penodol i ddatblygu medrau datrys problemau plant yn effeithiol

A2 Llunio cynllun tymor-hir sy'n mapio'r ddarpariaeth yn glir dros gyfnod penodol

A3 Mireinio'r meini prawf llwyddiant yn y cynllun gweithredu fel eu bod yn seiliedig ar ddeilliannau plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y plant yn cychwyn yn y lleoliad gyda medrau llythrennedd a rhifedd yn debyg i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau hyn ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r plant mwy abl yn gwneud cynnydd da iawn.

Mae mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd da ac yn datblygu'r iaith yn fuan. Mae bron pob un yn deall cyfarwyddiadau dyddiol yn dda, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith wrth ymateb i gwestiynau syml. Gall y rhan fwyaf adnabod dyddiau'r wythnos mewn print a'u henwi mewn trefn. Maent yn sgwrsio'n hyderus am y tywydd yn y Gymraeg yn sesiwn gyntaf y bore ac yn holi'r ymarferwyr am weithgareddau'r dydd. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd, yn rhannu profiadau ac yn sgwrsio am weithgareddau fel stori Jac a'r Goeden Ffa neu ymweliadau fel yr un diweddar i ganolfan arddio leol. Mae ychydig yn dewis mynd i ddarllen o'u gwirfodd, gan ddangos eu bod yn gwybod sut mae trin llyfrau yn gywir. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer gwneud marciau yn annibynnol a chyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth ysgrifennu eu henw ar lun llaw tra'n hunangofrestru.

Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau rhifedd yn dda. Maent yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir wrth adeiladu â blociau neu wrth chwarae ag anifeiliaid y fferm. Maent yn enwi siapiau dau ddimensiwn syml yn gywir ac yn eu hadnabod o fewn y dosbarth. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir wrth drin ystod o offer chwarae a chymharu uchder tyrau o frics. Mae'r mwyafrif yn grwpio gwrthrychau yn ôl lliw yn gywir ac yn enwi'r lliwiau yn gywir yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o offer TGCh yn hyderus. Gall ychydig rheoli tegan electronig yn llwyddiannus a dewis cofnodi eu gwaith yn annibynnol ar gamera. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml wrth ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Mae ychydig yn dechrau meddwl sut maen nhw'n mynd i ymateb i dasgau ymarferol fel tynnu llun castell gan ddefnyddio cyfryngau amrywiol. Fodd bynnag, cyfyng yw gallu plant i ddatrys problemau penodol yn llwyddiannus.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau corfforol da drwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt, fel dawnsio, rhedeg a cherdded yn araf yn y sesiwn amser actif. Mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau corfforol yn gyson i weithio ar raddfa fawr, er enghraifft wrth adeiladu tŵr cardfwrdd neu wrth fynd ar feic. Mae gallu'r mwyafrif i drin offer bach fel offer ysgrifennu, paentio, a theganau byd bach yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Mae gan yr ymarferwyr berthynas agos â'i gilydd a chyda'r plant a'u rhieni, sy'n sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym.

Mae bron pob un yn ymddwyn yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol, gan ddilyn cyfarwyddiadau yn ddeallus a chydymffurfio'n ufudd â threfn y sesiynau. Mae gan bron bob plentyn agwedd gadarnhaol at ddysgu, ac maent yn ymgymryd â'u gweithgareddau'n frwdfrydig. Er enghraifft, mae unigolion yn cymryd tro i fod yn gyfrifol am fonitro'r tywydd yn ddyddiol tra bod 'helpwr heddiw' yn dosbarthu byrbryd a thacluso. Mae hyn yn datblygu eu medrau annibynnol yn effeithiol ynghyd â'u gallu i gymryd cyfrifoldeb. Mae'r rhan fwyaf yn deall egwyddor a phwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau'n hyderus wrth benderfynu ble maen nhw am chwarae a beth maen nhw am ei wneud yn ystod y sesiynau. Maent yn gweithio'n lled annibynnol ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gael eu herio i wella.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cynllunio tymor canolig y lleoliad yn ddefnyddiol i nodi'r profiadau dysgu ysgogol a gyflwynir, sy'n seiliedig ar ddiddordebau'r plant ac yn ymateb yn dda i'w hanghenion. Maent yn adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn dda. Mae'r cynlluniau yn nodi'n glir y cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant o fewn y thema. O ganlyniad, mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio'r plant i ymroi'n gydwybodol i'w tasgau. Mae enghreifftiau da yn cynnwys gweithgareddau cyfateb rhif, lliw a llestri adeg byrbryd a thrafod straeon neu ganu rhigymau mewn sesiynau torfol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y plant yn greiddiol i'r holl weithgareddau. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh cynnar y plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da iddynt ddefnyddio ystod o offer fel camera ar ffôn symudol, gliniadur a thegan a llechi electronig.

Yn dilyn trafodaethau wythnosol, mae'r ymarferwyr yn aml yn addasu gweithgareddau i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau neu anghenion gwahanol y maent wedi dod ar eu traws wrth arsylwi ar y plant yn chwarae a gweithio. Yn achlysurol, maent yn darparu cyfleoedd priodol i'r plant gyfrannu eu syniadau hwythau i'r gweithgareddau. Mae hyn yn annog eu chwilfrydedd ac yn datblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r plant wedi rhannu eu syniadau am y thema gyfredol 'Jac a'r Goeden Ffa' ac mae'r ymarferwyr wedi eu cynorthwyo i'w cofnodi ar daflen briodol.

Cynllunnir cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio beiciau ac offer mawr arall yn yr ardal allanol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cadarn i blant ddawnsio neu fynd am dro yn rheolaidd trwy dir yr ysgol, gan ddilyn ei gilydd ac amrywio'u ffordd o symud. Mae'r gweithgareddau hyn yn fodd i ddatblygu medrau corfforol y plant yn effeithiol, ynghyd â'u hymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymarfer corff.

Er bod ymarferwyr yn annog y plant i feddwl drostyn nhw eu hunain, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i'w galluogi i ymarfer digon o'u medrau datrys problemau yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen yn flynyddol, a defnyddio chwedlau traddodiadol fel sail i'w themâu.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Maent wedi ymweld â chanolfan arddio leol i gyd-fynd â'r thema gyfredol, ac mae parafeddygon, swyddogion y gwasanaeth tân a'r heddlu lleol wedi ymweld â'r lleoliad i siarad â'r plant am eu gwaith. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant am bobl sy'n eu helpu o fewn y gymuned.

Er bod y cynllunio tymor canolig yn llwyddiannus, nid yw ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer mapio'r ddarpariaeth yn drefnus dros yr hir-dymor.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gadarn dda. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn deall egwyddorion y cyfnod sylfaen.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob plentyn ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd i sicrhau bod pob un yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol iawn mewn ffordd hynaws ond cadarnhaol. Mae hyn yn annog y plant i gyfranogi'n gydwybodol a mwynhau ym mhob gweithgaredd. Maent yn herio'r plant yn gyson trwy eu holi tra'u bod yn cymryd rhan mewn tasgau ffocws a pharhaus ac maent yn eu hannog i siarad yn y Gymraeg yn barhaus o'r cychwyn cyntaf. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae'r plant i'w hysgogi a'u cymell i lwyddo ac i esbonio iddynt beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae cymhelliant y plant yn uchel, eu hawydd i wella'u gwaith yn gyson dda ac maent yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn drwyadl ac mae'r asesiadau cychwynnol yn ddefnyddiol i alluogi'r ymarferwyr i fesur cynnydd. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi unrhyw gynnydd nodedig a wneir gan blant yn ddyddiol ac yn ychwanegu'r rhain i'w proffiliau unigol. Maent yn dathlu llwyddiannau ac ymroddiad nodedig y plant ar ddiwedd y sesiwn fore ac yn cofnodi hyn ar y Siart Seren. Mae hyn yn hybu ymdrech yn llwyddiannus. Defnyddir asesiadau yn seiliedig ar dasgau'r grwpiau ffocws yn gyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae'r ddeialog ddyddiol rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr wrth y fynedfa yn atgyfnerthu hyn. Ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn trosglwyddo gwybodaeth benodol amdanynt i'r ysgol gynradd. Mae hyn yn eu helpu i drosglwyddo'n esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp mawr, fel amser carped, amser byrbryd ac amser stori, i feithrin y gwerthoedd hyn gan annog y plant i gymryd eu tro ac i wrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn ystyried a pharchu teimladau ei gilydd yn aeddfed iawn.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd eu tro'n gwrtais wrth iddynt olchi eu dwylo, dosbarthu byrbryd a derbyn diod. Maent yn rhoi cyfrifoldeb priodol i'r plant osod menyn ar eu cracyrs a chlirio'u llestri ar ddiwedd amser byrbryd. Mae ysgwyddo rôl 'helpwr heddiw' neu 'monitor tywydd' yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn dderbyn cyfrifoldeb yn eu tro a datblygu eu medrau annibynnol. Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd hamddenol i'r plant ar adegau penodol o'r dydd trwy chwarae cerddoriaeth yn dawel, sydd yn ei dro yn eu hannog i ymdawelu yn hollol naturiol. Maent yn gweddïo'n fyfyrgar cyn mynd adref.

Mae trefniadau effeithlon yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant ac mae'r lleoliad yn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu'n gadarnhaol at ffordd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, a photeli plastig. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn ofalgar iawn wrth dderbyn y plant yn y bore, yn ystod y sesiwn, a phan fyddant yn mynd adref ar ddiwedd y sesiwn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Yr arweinydd sy'n gyfrifol am drefnu ac addasu'r ddarpariaeth i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol fydd gan unigolion penodol ac mae'n cofnodi manylion perthnasol yn briodol. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus â rhieni ac asiantaethau arbenigol i ddarparu cynlluniau addysg unigol priodol i'r plant sydd eu hangen ac yn adolygu eu cynnydd yn rheolaidd.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un yn cael cyfle cyfartal i ddysgu ymhob un o'r ardaloedd gwahanol y tu mewn i'r adeilad ac yn yr ardal sy'n rhannol dan do.

Mae ethos gweithgar a hamddenol y lleoliad yn adlewyrchu'r pwyslais mae arweinwyr yn ei roi ar gydweithio ac ymroi i weithgareddau. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais parhaus ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Maent yn addysgu'r plant yn llwyddiannus am wahanol ddiwylliannau a gwyliau fel y Nadolig, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali yn flynyddol.

Defnyddir adnoddau'n benodol i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen ac anghenion penodol y plant. Fe'u defnyddir yn effeithiol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau

ffocws a gweithgareddau amrywiol a diddorol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r adnoddau, sydd mewn cyflwr da iawn, yn cael eu cadw ar lefel briodol i alluogi'r plant i'w cyrraedd a'u gosod heibio wedi iddynt orffen â nhw. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r ystafell ddosbarth yn rhan o adeilad newydd yr ysgol gynradd leol, ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n lân a diogel. Mae'r ardal allanol, sy'n rhannol agored ond â tho iddo, yn ddiogel ac yn cynnwys ardaloedd tyfu a phlannu, twba tywod, siop waith ac ardaloedd priodol i farcio a chwarae rôl. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn greadigol. Fodd bynnag, mae safle'r brif ystafell a'r ardal rhannol agored o fewn y prif adeilad yn ei gwneud hi'n anodd i blant symud yn rhydd rhwng y tu mewn a thu allan. Defnyddir neuadd a thir yr ysgol yn synhwyrol ar gyfer gweithgareddau penodol na ellir eu cyflwyno yn y dosbarth.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r lleoliad, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar hapusrwydd, cynnydd a lles plant. Mae'n rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r ymarferwyr eraill, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a'r ymarferwyr eraill ac mae wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i rannu gwybodaeth am weithdrefnau dyddiol a chynnydd plant ymhlith yr ymarferwyr. Mae rolau'r ymarferwyr yn glir ac wedi eu cofnodi mewn disgrifiadau swyddi manwl. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud, yn hybu gwaith tîm effeithiol, ac yn eu galluogi i gefnogi a herio'r plant i gyflawni hyd orau eu gallu.

Rheolir perfformiad y staff yn effeithiol ac mae gan bob un fynediad defnyddiol at hyfforddiant penodol. Mae hyn yn cysylltu'n dda â'u hanghenion proffesiynol ynghyd â blaenoriaethau gwella'r lleoliad a blaenoriaethau cenedlaethol eraill. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar ar gyfoethogi'r ddarpariaeth barhaus, mae'r lleoliad wedi ehangu'r cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau annibynnol.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol i waith y lleoliad ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da at adnoddau o safon uchel i'w galluogi i gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Trwy ymweld yn rheolaidd a thrwy dderbyn adroddiad tymhorol, maent yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn dwyn yr arweinydd a'r ymarferwyr eraill i gyfrif yn briodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan greiddiol o waith y lleoliad ac yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd ei waith mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Mae'r ymarferwyr yn gyfrifol am asesu effaith eu gwaith eu hunain a'u cydweithwyr ar gynnydd y plant. Mae hyn yn hybu cydweithio agored ac ymdeimlad clir o waith tîm a gwelliant parhaus. Caiff pob ymarferydd eu monitro'n dymhorol gan yr arweinydd, a'r arweinydd gan gadeirydd y pwyllgor rheoli ac mae deilliannau'r weithdrefn yn cyfrannu'n uniongyrchol at fanylder yr adroddiad hunanarfarnu a'r gwerthusiad blynyddol ffurfiol o'u perfformiad. Mae hyn yn arwain yn naturiol at welliant mewn darpariaeth, safonau a lles plant.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun gwella. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cynllun gwella yn nodi nifer synhwyrol o dargedau clir a phriodol, gweithgareddau, pwy sy'n gyfrifol, cost ac effaith. Nodir sylwadau yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddatblygiad yn erbyn y targedau. Fodd bynnag, mae effaith y gweithgareddau yn cyfeirio gormod at y ddarpariaeth yn hytrach na deilliannau'r plant mewn rhai meysydd, ac nid yw bob amser yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd mesur effaith y gweithgareddau ar ddeilliannau plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad berthynas effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant. Mae ganddo bolisi drws agored ac mae staff bob amser yn cyfarch y rhieni wrth y drws ac yn barod i drafod materion perthnasol gyda nhw yn y fan a'r lle, os yn briodol. Cynhelir nosweithiau agored a defnyddiol iddynt yn dymhorol i'w galluogi i drafod datblygiad eu plentyn yn fwy ffurfiol, ynghyd ag unrhyw bryderon neu faterion maent am eu codi gyda'r staff. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol, llythyron, posteri a bwrdd arddangos y lleoliad yn effeithiol i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau ac i rannu unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall. Mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref â'r ysgol gynradd y mae'n ffodus ei bod wedi'i lleoli ar ei champws. Mae hyn yn ei galluogi i rannu adnoddau, sy'n cynnwys y neuadd, mannau chwarae a'r ardal allanol. Mae'r plant yn gyfarwydd â mynychu'r adeilad ac mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol â'r staff, gan fynychu sesiynau hyfforddiant, rhannu polisïau cyffredin yn ymwneud, er enghraifft, ag ymddygiad, a chyd-drefnu gweithgareddau codi arian. Mae'r cyswllt cadarn a buddiol hwn yn hwyluso'r broses trosglwyddo ac yn sicrhau bod y plant, yn eu tro, yn hapus wrth gychwyn yn yr ysgol gynradd.

Mae gan ymarferwyr bartneriaeth fuddiol â chylchoedd meithrin eraill a'r ganolfan deulu yn y gymuned, sy'n eu galluogi i rannu adnoddau a chynnal gweithgareddau codi arian ar y cyd. Mae Ras Hwyl Santa a drefnir gan gymdeithas rhedeg leol yn ddigwyddiad poblogaidd y mae'r lleoliad yn elwa ohono. Yn yr un modd, mae'r bartneriaeth â chylchoedd meithrin eraill yn galluogi staff i dderbyn hyfforddiant fel cymorth cyntaf, ar y cyd. Mae hyn yn fodd da i rwydweithio a chael mynediad i hyfforddiant fforddadwy.

Trefnir ymweliadau cyson gan aelodau'r gymuned fel y ficer lleol, i gyfoethogi gweithgareddau'r lleoliad. Bu parafeddygon, swyddogion y gwasanaeth tân a chi achub yr heddlu yn ymweld hefyd, i godi ymwybyddiaeth y plant o bobl sy'n eu helpu. Mae aelodau'r gymuned yn hael iawn â'u hamser a'u cefnogaeth i godi arian i'r lleoliad. Codwyd swm sylweddol mewn sioe ffasiynau yn ddiweddar, er enghraifft, er mwyn prynu mwy o adnoddau chwarae.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn effeithiol. Rheolir perfformiad y staff yn llwyddiannus a threfnir hyfforddiant priodol i godi eu hymwybyddiaeth o faterion penodol yn seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol ac amcanion gwella'r lleoliad. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys hyfforddiant

llythrennedd sydd wedi gwella safonau llafar plant. Cefnogir y lleoliad yn effeithiol gan swyddog cyswllt yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, ymysg eraill. Maent, er enghraifft, wedi annog ymarferwyr i fyfyrio'n well ar eu harferion a gwerthuso'u heffaith mewn perthynas â dysgu ac addysgu.

Gwneir defnydd priodol o grant amddifadedd y blynyddoedd cynnar, a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol, i hyfforddi ymarferwyr mewn meysydd synhwyrol fel rhifedd a llythrennedd.

Rheolir y cyllid yn effeithlon gan swyddogion y pwyllgor rheoli ac maent yn trefnu gweithgareddau cyson i godi symiau sylweddol o arian i gefnogi gwaith y lleoliad. O ganlyniad i effaith gadarn y ddarpariaeth ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |